***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1104 (Cy.116)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) Deddf gydgrynhoi yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) ("Deddf 2006"). Mae'n dirymu ac yn ailddeddfu yn ei chyfanrwydd Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) ("Deddf 1977") gan ymgorffori rhai o ddarpariaethau Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990, Deddf Iechyd 1999, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, Deddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a Deddf Iechyd 2006.
Mae adrannau 130 a 131 o Ddeddf 2006 yn cyfateb i adran 83A o Ddeddf 1977.
Mae adran 203(9) a (10) o Ddeddf 2006 yn cyfateb i adran 126(4) o Ddeddf 1977.
Trinnir y cyfeiriadau at "Weinidogion Cymru" yn Neddf 2006 fel pe baent yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) yn unol â'r addasiadau a geir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43), adran 5 ac Atodlen 3, paragraff 10.
Bydd cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i swyddogaethau yn trosglwyddo I Weinidogion Cymru yn syth ar ôl diwedd yr "initial period" (fel y'i diffinnir yn adran 161(5) yn unol ag adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).